

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

41/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

28/06/2018

Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Dau

Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Dau

Rhodri Johnson, Prifysgol Abertawe
Sarah Lowe, Llywodraeth Cymru
Ian Jones, Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Johnson, R. Lowe, S.E. Jones I. (2018). *Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Dau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 41/2018x.>
Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/supporting-people-data-linking-project/?lang=cy>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Lucie Griffiths

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5780

E-bost: Lucie.Griffiths@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cynnydd ym Mlwyddyn Dau y Prosiect	7
3.	Casgliadau, Argymhellion a'r Camau Nesaf	15
	Atodiad A: Amcanion Ymchwil	17
	Atodiad B: Trosolwg Caffael Data Cefnogi Pobl.....	18

1. Cyflwyniad

Cefndir Polisi

- 1.1 Mae Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru (y Rhaglen) yn rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â thai i helpu pobl sy'n agored i niwed i osgoi digartrefedd ac i fyw mor annibynnol â phosibl.
- 1.2 Gweledigaeth y Rhaglen yw helpu pobl i ddod o hyd i gartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n annog annibyniaeth mewn amgylchedd iach a diogel, a'u helpu i gadw'r cartref hwnnw.
- 1.3 Yn 2017-18, cyllideb y Rhaglen oedd £124.4 miliwn. Mae'r gyllideb flynyddol a chyfanswm y grant sydd ar gael yn newid yn ôl penderfyniadau a chyfyngiadau cyllidebol. Mae'r Rhaglen yn cefnogi mwy na 57,000 o bobl bob blwyddyn, a'i nod yw atal problemau drwy gynnig help cyn gynted â phosibl¹.
- 1.4 Mae dwy elfen allweddol i'r math o gymorth a ddarperir o ran hyd y cymorth – cymorth hirdymor a chymorth byrdymor. Mae cymorth cynhaliaeth hirdymor yn ceisio helpu pobl i gadw neu sicrhau annibyniaeth ac osgoi'r angen am ymyriadau mwy costus megis mynd i ofal. Mae gwasanaethau ataliol byrdymor yn ceisio helpu pobl i osgoi digartrefedd, yn aml yn ystod cyfnod o argyfwng. Mae dau wahaniaeth yn natur y cymorth hefyd - cymorth sefydlog neu gymorth fel y bo'r angen. Mae cymorth sefydlog, neu gymorth sy'n seiliedig ar lety yn gysylltiedig â llety penodol fel hosteli i bobl ddigartref, ffoaduriaid neu gynlluniau tai â chymorth eraill. Mae cymorth fel y bo'r angen yn fwy hyblyg a gellir ei ddarparu mewn nifer o leoedd, yn cynnwys rhoi cymorth i berson yn ei gartref ei hun. Mae'r rhaglen yn un ataliol yn bennaf ac mae hyn yn cyd-fynd â nodau Deddf Tai (Cymru) 2014.
- 1.5 Sefydlwyd y Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl er mwyn helpu i gynnal ymchwil hydredol i fesur effaith y Rhaglen ac asesu ei heffeithiolrwydd a gwerth am arian. Mae'r grŵp yn cynnwys dau aelod o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ynghyd â chynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol, darparwyr gwasanaethau, Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)²/ Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru³ a Llywodraeth Cymru.
- 1.6 Mae Prosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl yn dilyn Astudiaeth Dichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru⁴ a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, a chaiff ei lywio ganddi. Dangosodd yr Astudiaeth y byddai'n ymarferol cynnal astudiaeth feintiol fwy cadarn ac ar raddfa fawr o effaith y Rhaglen yng Nghymru, a hynny gan ddefnyddio data a gysylltwyd drwy ddefnyddio Banc Data SAIL. Cytunodd Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gymunedau a Phlant i roi arian ar gyfer prosiect 4 blynedd, a bydd angen i adroddiad gael ei gyflwyno ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol hyd at fis Mawrth 2020.
- 1.7 Mae'r Prosiect hefyd yn rhan o Raglen Llywodraeth Cymru i Wneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol⁵, sy'n cael ei hariannu'n rhannol gan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y DU⁶.

¹ <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/?lang=cy>

² <https://saildatabank.com/>

³ <https://adrn.ac.uk/about/network/wales/>

⁴ <http://gov.wales/statistics-and-research/supporting-people-data-linking-feasibility-study/?lang=cy>

⁵ <http://gov.wales/statistics-and-research/making-better-use-existing-data/?lang=cy>

⁶ <http://www.esrc.ac.uk/>

Nodau ac Amcanion y Prosiect

- 1.8 Cafodd y Rhaglen ei datblygu gan ddisgwyl y byddai'r cymorth a gynnigir yn helpu i atal digartrefedd, a hefyd yn helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a pharhau i fyw yn eu cartref eu hunain yn hytrach na mynd i ofal hirdymor. O ganlyniad i'r prif ddiben hwn, mae'r Rhaglen hefyd yn disgwyl lleihau'r galw ar y GIG a gwasanaethau eraill.
- 1.9 Archwiliodd yr Astudiaeth Dichonoldeb effaith Cefnogi Pobl ar y defnydd o wasanaethau iechyd yn benodol ar gyfer dau Awdurdod Lleol braenaru (ceir rhagor o wybodaeth yn adroddiad yr Astudiaeth Dichonoldeb⁷). Nod y prif brosiect yw ychwanegu at hyn drwy gysylltu sampl Cymru gyfan o ddata Cefnogi Pobl â setiau data iechyd cyffredinol presennol a setiau data gweinyddol eraill ym Manc Data SAIL er mwyn asesu effaith y Rhaglen ar nifer o ddangosyddion sy'n ymwneud â lles ehangach defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Prosiect yn ceisio ateb y cwestiwn ymchwil eang canlynol:

"A yw cael gwasanaethau Cefnogi Pobl yn effeithio ar batrymau defnyddio gwasanaethau cyhoeddus?"

Dros ei oes, nod y prosiect hwn yw canolbwyntio ar ddangosyddion lles penodol, sef y rhyngweithiad â gwasanaethau iechyd (gofal sylfaenol ac eilaidd), gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwasanaethau opsiynau tai ac addysg cyn-16. Os bydd adnoddau'n caniatáu, bydd y Prosiect hefyd yn ceisio archwilio'r rhyngweithiadau â'r system cyfiawnder troseddol a chyfranogiad y farchnad lafur.

Amcanion y Prosiect ar gyfer Blwyddyn Dau

- 1.10 O ganlyniad i'r gwaith a gwblhawyd yn ystod Blwyddyn Un, cynigiwyd amcanion ar gyfer yr Ail Flwyddyn. Mae'r amcanion isod yn seiliedig ar y rhai a gyhoeddwyd ar ffurf gryno yn Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Un⁸ ond maent wedi'u diwygio bellach i adlewyrchu cynnydd a wnaed gyda'r prosiect hwn a phrosiectau cysylltu data eraill Llywodraeth Cymru.
- 1.11 Mae'r amcanion wedi'u rhannu'n bedair isadran: data Cefnogi Pobl, Model Gwrthbwyso Cost, data nad ydynt yn ymwneud â Chefnogi Pobl, a Dadansoddi ac Adrodd.

Data Cefnogi Pobl

- 1.12 Yr amcanion o ran data Cefnogi Pobl oedd:
- **Amcan 1:** Sicrhau bod cytundebau datgelu data Banc Data SAIL ar waith a chaffael data ôl-2016 gan yr 14 o Awdurdodau Lleol na allent ddarparu data i'r Prosiect ym Mlwyddyn Un.
 - **Amcan 2:** Adolygu ansawdd y data Cefnogi Pobl a ddarparwyd i'r Prosiect e.e. cyfraddau cysylltu, nifer yr eitemau o ddata sydd ar goll, gan gynnwys rhoi adborth i Awdurdodau Lleol i wella'r ffordd y caiff data eu casglu ac ymchwilio ymhellach i achosion lle nad yw'r 'prif anghenion' wedi'u cofnodi.
 - **Amcan 3:** Cytuno ar gwestiynau ymchwil gyda Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl, paratoi cynllun dadansoddi a chynnal dadansoddiad y cytunwyd arno.

⁷ <http://gov.wales/statistics-and-research/supporting-people-data-linking-feasibility-study/?lang=cy>

⁸ <http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170627-supporting-people-data-linkage-study-progress-report-cy.pdf>

- **Amcan 4:** Ceisio nodi grwpiau rheoli addas at ddibenion dadansoddi.

1.13 Argymhellodd Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Un y canlynol hefyd:

- **Argymhelliad 1:** Dylid adolygu proses Awdurdodau Lleol o gyfeirio, derbyn a chreu cofnod Cefnogi Pobl er mwyn sicrhau bod y diffiniadau o ddefnyddiwr gwasanaeth Cefnogi Pobl yn ddealladwy ym mhob Awdurdod Lleol h.y. bod unrhyw anghysondeb yn yr achosion a gaiff eu diffinio'n 'defnyddwyr' yn erbyn 'methu ag ymgysylltu' neu 'aflywddiannus' yn ddealladwy, er enghraifft.
- Argymhelliad 2: Byddai caffael data cyn-2016 yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r Prosiect. Felly, dylid penderfynu, drwy ymgynghori â Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl, p'un ai i barhau i fynd ar drywydd data cyn-2016 gan Awdurdodau Lleol a wrthododd ddarparu data yn flaenorol.
- Argymhelliad 3: Dylai'r Prosiect a thimau Cefnogi Pobl mewn Awdurdodau Lleol gyfathrebu'n barhaus i wella proses casglu, safoni a gwirio ansawdd data, a dylai manyleb data well gael ei chyhoeddi gan y Prosiect i roi rhagor o wybodaeth am yr eitemau gofynnol o ddata. Dylid rhoi pwyslais ar gipio'r eitemau 'adnabyddadwy' o ddata sydd eu hangen i gysylltu data.

Model gwrthbwysu cost

1.14 Yr amcan a gynigiwyd yn Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Un oedd:

- **Amcan 5:** Gweithio gydag economegydd o Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ddichonoldeb creu model gwrthbwysu cost ymhellach

1.15 Nod y model fyddai nodi unrhyw achos o wrthbwysu cost y GIG, gofal cymdeithasol, tai ac ati sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau Cefnogi Pobl. Byddai'r model yn asesu costau ariannol a buddiannau'r Rhaglen Cefnogi Pobl, gan gymharu cost y gwasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaethau gyda chost amrywiaeth o 'ddigwyddiadau andwyol' posibl e.e. rhyngweithiadau gwasanaeth iechyd, a allai ddigwydd i gleientiaid pe na fyddai gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gael.

1.16 Ystyriwyd y gallai'r dull hwn leihau costau gwerthuso'r rhaglen dros amser drwy leihau neu ddileu'r angen i gomisiynu gwaith modelu dro ar ôl tro.

Data nad ydynt yn ymwneud â Cefnogi Pobl

1.17 Yr amcan a gynigiwyd yn Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Un oedd:

- **Amcan 6:** Mynd ar drywydd setiau data sy'n ymwneud â dangosyddion ychwanegol, blaenoriaethu data gofal cymdeithasol, opsiynau tai a chyrhaeddiad addysgol; cytuno ar amserlenni caffael.

1.18 Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru yn ariannu Prosiect Datblygu Llif Data (DDP) ar y cyd, sy'n ceisio gosod Cyfarpar Data Ymchwil Cenedlaethol (NRDA) – 'peiriannau cysylltu awtomataidd' yn y bôn – mewn chwe Awdurdod Lleol peilot yng Nghymru a chaffael amrywiaeth o setiau data ar gyfer SAIL. Bydd y DDP yn ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith caffael data ar gyfer Prosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl, yn benodol ar gyfer opsiynau gofal cymdeithasol a thai. Mewn ymgynghoriad â dadansoddwr Cefnogi Pobl, bydd Tîm y DDP yn ceisio caffael, glanhau, cysoni ac archwilio data ar opsiynau tai a gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol. Darperir y data i Brosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl pan fydd yn 'barod ar gyfer ymchwil'. Efallai y bydd data ar opsiynau gofal cymdeithasol a thai ar gyfer o leiaf un awdurdod lleol peilot ar gael i'w dadansoddi yn ystod Blwyddyn Tri.

- 1.19 Mae Prosiect Cysylltu Data Tlodi Tanwydd y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru wrthi'n ceisio caffael data ar gyfnodau o hawlio budd-daliadau gan Adran Gwaith a Phensiynau y DU ac, os bydd yn llwyddiannus, disgwylir y bydd o fantais i'r Prosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl.
- 1.20 Os bydd amser yn caniatáu, bydd y dadansoddwr Cefnogi Pobl yn ceisio cyfleoedd i gaffael data mewn perthynas â rhyngweithiadau â'r system cyfiawnder troseddol.
- 1.21 Ar gyfer unrhyw ddata nad ydynt yn ymwneud â Chefnogi Pobl a ddaw ar gael ymhen amser, bydd dadansoddwr Cefnogi Pobl yn cynnig dadansoddiad posibl i'r Grŵp Ymchwil a Gwerthuso gytuno arno. Fodd bynnag, yn unol â blaenoriaethau ymchwil y cytunwyd arnynt, rhagwelir y caiff unrhyw ddadansoddiad o'r fath ei drosglwyddo i Flwyddyn Tri.

Dadansoddi ac Adrodd

- 1.22 Awgrymodd Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Un y byddai Adroddiad Blwyddyn Dau yn cynnwys y canlynol:
- **Eitem 1:** adroddiadau o ansawdd data ar lefel Awdurdodau Lleol a chyfun;
 - **Eitem 2:** crynodeb o gynnydd tuag at gyflenwi data Cefnogi Pobl;
 - **Eitem 3:** adroddiad ar nodweddion demograffig defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl;
 - **Eitem 4:** pob dadansoddiad ymchwiliol newydd a dadansoddiad o unrhyw ddangosyddion effaith y mae data wedi'u caffael ar eu cyfer.

Llywodraethu'r Prosiect

- 1.23 Mae'r prif ddadansoddwr (academaidd Gradd 8) wedi'i osod yng Nghanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru o hyd a chaiff ei reoli ar y cyd gan yr Ymchwilydd Tai a'r arweinydd Gwneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol yn Llywodraeth Cymru.
- 1.24 Cynhelir cyfarfodydd diweddarau rheolaidd gyda Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl. Yn ei dro, adroddir ar hynt y Prosiect i Fwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, sy'n rhoi cyngor i'r Gweinidog ar gyfeiriad strategol arfaethedig y Rhaglen.
- 1.25 Fel y nodir uchod, caiff y Prosiect ei gynnal gan ddefnyddio data rheolaidd wedi'u hanonymyddio a ddelir ym Manc Data SAIL a dan nawdd Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru. Er mwyn sicrhau mynediad diogel i ddata gweinyddol cysylltiedig wedi'u hanonymyddio, roedd yn ofynnol i'r Prosiect geisio cymeradwyaeth gan Banel Cymeradwyo'r Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol. Mae'r Panel Cymeradwyo yn sicrhau bod y broses o roi mynediad i ddata gweinyddol cysylltiedig sensitif yn deg, yn gyfiawn ac yn dryloyw. Mae'n asesu'r prosiectau yn erbyn y meini prawf canlynol
- rhaid i'r ymchwil fod yn hollol anfasnachol;
 - rhaid i'r ymchwil fod yn ddichonadwy, yn foesebol a rhaid bod ganddi fudd posibl clir i'r cyhoedd;
 - rhaid pledio achos defnyddio data gweinyddol er mwyn cynnal yr ymchwil;
 - dim ond drwy'r Rhwydwaith y dylai'r set data perthnasol fod ar gael, yn hytrach na thrwy ddulliau erial fel Sefydliad Farr, UK Data Service Secure Lab, neu astudiaethau hydredol);

- ni ddylai'r prosiect fod yn ymchwil y byddai un o adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth yn ei chynnal fel rhan o'i gweithrediadau arferol;
- mae'r prosiect yn cyhoeddi ei ganlyniadau drwy wefan y Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol.

- 1.26 Un o'r gofynion eraill ar gyfer pob cynnig yn cynnwys dadansoddi data iechyd rheolaidd yn SAIL yw cael cymeradwyaeth gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Panel o arbenigwyr annibynnol mewn llywodraethu gwybodeg ac aelodau lleyg yw'r IGRP sy'n goruchwyllo'r holl ymchwil a gynhelir yn SAIL.
- 1.27 Cymeradwywyd y prosiect gan baneli llywodraethu heb godi unrhyw bryderon.

2. Cynnydd ym Mlwyddyn Dau y Prosiect

2.1 Mae'r adran hon yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion a'r argymhellion a amlinellir ym Mhennod 1. O ran Pennod 1, caiff y Bennod ei rhannu'n bedair is-adran: Data Cefnogi Pobl, Model Gwrthbwysu Cost, Data nad ydynt yn ymwneud â Chefnogi Pobl a Dadansoddi ac Adrodd.

Data Cefnogi Pobl

Amcan 1: Caffael data ôl-2016

- 2.2 Gwnaed cynnydd sylweddol gyda chytundebau rhannu data yn cael eu cwblhau a data yn cael eu cyflenwi gan 19 o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.
- 2.3 Mae ffeiliau data o fwy nag 20 o ffynonellau (mae rhai Awdurdodau Lleol yn darparu data ar wahân ar gyfer meysydd gwahanol o'r Rhaglen) dros gyfnodau amrywiol wedi'u hymgorffori mewn proses fewnforio safonedig. Sefydlwyd y set data terfynol gyda dull gweithredu hyblyg er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwestiynau ymchwil amrywiol dros oes y prosiect ymchwil.
- 2.4 Mae'r ymchwilydd yn parhau i weithio gyda'r tri Awdurdod Lleol sy'n weddill er mwyn cwblhau'r broses o gasglu'r data ar gyfer Cymru gyfan. Ar y cyfan, cynnydd araf a wnaed sy'n golygu bod yr ymchwilydd wedi treulio llawer o amser yn ceisio cwblhau'r dasg. Mae'r tri Awdurdod Lleol yn nodi bod data wedi'u casglu'n ddiweddar ac y cânt eu cyflwyno pan fydd cytundebau rhannu data yn eu lle. Mae'r oedi parhaus yn bennaf am nad yw Awdurdodau Lleol wedi cytuno i lofnodi'r cytundeb rhannu data safonol ac maent yn parhau, er y gwneir cynnydd araf tuag at sefydlu cytundebau newydd.
- 2.5 Er bod data wedi'u caffael ar gyfer 19 o Awdurdodau Lleol, mae'r gwaith caffael data yn broses barhaus ac mae'n dal i fod yn llif gwaith prosiect mawr. Er mwyn helpu i ddehongli'r diweddariad hwn, caiff tri math gwahanol o ddulliau caffael data eu diffinio yma;
- Data 'cyn-2016', yn ymwneud â data 'ôl-weithredol' hyd at fis Mawrth 2016
 - 'Data 2016', yn ymwneud â data yn nhermau blwyddyn ariannol (mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017) neu flwyddyn galendr 2016. Cyfeiriwyd yn gyffredinol at hyn yn flaenorol fel 'data ôl-2016'
 - 'Data 2017', yn ymwneud â data yn nhermau blwyddyn ariannol (mis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018) neu flwyddyn galendr 2017
- 2.6 Nid aed i'r afael â'r penderfyniad ynghylch sut y dylid cydlynu a chyflenwi data 'yn y dyfodol' yn flaenorol. Gwnaed penderfyniad i adael i Awdurdodau Lleol ddewis cyflwyno data blwyddyn galendr neu flwyddyn ariannol. Gan na chafwyd unrhyw effaith andwyol benodol ar yr ymchwil, mewn ymgynghoriad â Grŵp Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl, gwnaed penderfyniad i atal gosod pwysau ychwanegol ar Dimau Cefnogi Pobl, gan alluogi Awdurdodau Lleol unigol i gysoni prosesau gyda'u dulliau caffael data penodol a'u gofynion adrodd.
- 2.7 Cytunwyd ar gyfnod o ddau fis ar ôl diwedd y flwyddyn ar gyfer casglu, glanhau ac ailgyflwyno data. Y disgwyliad yw y byddai'r broses o gyflwyno data yn gyflawn erbyn diwedd mis Chwefror 2018 (os cânt eu cyflwyno ar sail blwyddyn galendr), neu fis Mai 2018 (os caiff data eu cyflwyno ar sail blwyddyn ariannol). Byddai hyn yn golygu y gellid dechrau ar unrhyw waith cysoni a gwirio data ym mis Mehefin 2018 gan gynnal dadansoddiad wedi hynny.

- 2.8 Mae angen ystyried tri math o ddulliau cyflenwi data mewn perthynas â mewnfurio rhagor o echdyniadau data:
- Data 'newydd': ar gyfer yr Awdurdodau Lleol hynny lle caiff y data eu cyflwyno am y tro cyntaf i'r Prosiect. Cefnogaeth gan yr Ymchwilydd i'r timau Cefnogi Pobl ac mae adnoddau gan y timau Cefnogi Pobl fel arfer yn fwy ar gyfer y math hwn o ddull o gyflenwi data.
 - Data 'ad-hoc': ar ffurf diweddariadau data newydd, er enghraifft yr Awdurdodau Lleol hynny a gyflenwodd ddata cyn-2016 ond nad ydynt wedi cyflenwi data ôl-2016 eto, neu lle nodwyd problemau mewn perthynas â data a ddarparwyd yn flaenorol. Er enghraifft, darparodd rhai Awdurdodau Lleol ddata ar gyfer Blwyddyn Un y prosiect ond mewn fformat gwahanol i'r fformat a nodwyd ar gyfer y Prosiect Cysylltu Data llawn. Felly bydd angen defnyddio'r timau Cefnogi Pobl a bydd angen i'r ymchwilydd newid i'r fanyleb data bresennol.
 - Data 'blaenlif' neu ddata rheolaidd, blynyddol, fel y nodir uchod, dan nawdd y DDP: mae hyn yn nodi'r broses o ddata blynyddol newydd yn y dyfodol. Dylid lleihau'r defnydd a wneir o'r Ymchwilydd a'r Tîm Cefnogi Pobl yn y sefyllfa hon yn y dyfodol.

O ystyried y gofynion o ran adnoddau a amlinellir uchod, bydd y broses o gaffael data yn parhau i greu llif gwaith prosiect mawr.

- 2.9 Mae'n werth nodi bod rhanbarth Gogledd Cymru wedi gweithredu ar y cyd gydag un cytundeb a rennir⁹, un ffynhonnell ddata ac un pwynt cyswllt er mwyn darparu data i'r prosiect. Defnyddiodd y dull o gasglu data gronfa ddata SNAP a ddefnyddir i gasglu a chyflwyno ffurflenni 'Canlyniad' Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru. Roedd sawl mantais i'r dull hwn, yn cynnwys: defnyddio llai ar y Tîm Cefnogi Pobl, Darparwyr Gwasanaeth a'r Ymchwilydd; llai o risg o wallau yn sgil casglu taenlenni niferus; a'r posibilrwydd i'r prosiect ymchwil gysylltu'r data gweinyddol Cefnogi Pobl i'r Data Canlyniadau (nid oes Data Canlyniadau ar gyfer pob proses arall o gasglu a chyflenwi data). Ar sail y cynnydd a wnaed a'r buddiannau a amlygir yn y broses o gytuno ar ddata a rennir a'u casglu yn enghraifft Gogledd Cymru, hoffai Grŵp Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl argymhell creu cronfa ddata ganolog.
- 2.10 Roedd sawl mantais i'r dull hwn, yn cynnwys: defnyddio llai ar y Tîm Cefnogi Pobl, Darparwyr Gwasanaeth a'r Ymchwilydd; a'r posibilrwydd i'r prosiect ymchwil gysylltu'r data gweinyddol Cefnogi Pobl i'r Data Canlyniadau (nid oes Data Canlyniadau ar gyfer pob proses arall o gasglu a chyflenwi data).

Amcan 2: Adolygu Ansawdd Data Cefnogi Pobl

- 2.11 Yn ystod y broses o gaffael data ym Mlwyddyn Dau, teimlwyd bod ansawdd y data wedi gwella cymaint fel nad oedd angen adroddiadau ansawdd lefel unigol ar gyfer pob Awdurdod Lleol. Cynhaliwyd nifer o dasgau er mwyn helpu i wella ansawdd data:
- Diweddariad prosiect a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017 i dimau Cefnogi Pobl sy'n rhoi rhagor o ganllawiau ar y mathau o faterion ansawdd data a oedd yn codi e.e. yr angen i sicrhau bod manylion personol defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cofnodi'n gywir er mwyn gwella'r siawns o gysylltu data yn llyddiannus.

⁹ Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

- Rhoi adborth i Awdurdodau Lleol fesul achos ar gyfraddau cysylltu data a data coll fel 'prif anghenion' ar goll. Nid yw anghenion eilaidd a thrydyddol wedi'u nodi ym mhob achos.

Lle y bo'n bosibl, cafodd problemau data eu cywiro a chyflwynwyd y data eto. Lle nad oedd yn bosibl cywiro data yn ôl-weithredol, mae Awdurdodau Lleol wedi cadarnhau bod dulliau caffael data wedi cael eu gwella er mwyn gwella ansawdd data yn y dyfodol.

Amcan 3: Cytuno ar gwestiynau ymchwil

- 2.12 Mae rhestr o gwestiynau ymchwil wedi'u datblygu, a chafodd ei chyflwyno i Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl a chytunwyd arni. Roedd y cwestiynau ymchwil yn cyd-fynd â nodau Rhaglen Cefnogi Pobl¹⁰ o ran y ffaith bod y nodau hynny yn fesuradwy gan ddefnyddio'r data sydd ar gael. Mae'r rhestr lawn o gwestiynau ymchwil yn Atodiad A a chânt eu hadolygu a'u blaenoriaethu mewn cyfarfodydd llywio Ymchwil a Gwerthuso yn y dyfodol.
- 2.13 Y nod ymchwil cyffredinol yw mesur effaith Rhaglen Cefnogi Pobl ar lefel polisi gyffredinol a chaiff ei diffinio fel a ganlyn:
- *A yw'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi cyflawni ei nodau mesuradwy o sicrhau sefydlogrwydd preswyl a byw'n annibynnol â chymorth, a oedd unrhyw effaith amlwg arall ar wasanaethau cyhoeddus ac a wnaeth helpu i leihau anghydraddoldebau?*
- 2.14 Prif Amcan 1: Mesur y defnydd o wasanaethau cyhoeddus
- Mesur y gwahaniaeth o ran defnyddio gwasanaethau cyhoeddus cyn ac ar ôl ymyriad Cefnogi Pobl.
 - Mae data'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gael yng Nghronfa Ddata SAIL a nhw a gaiff eu dadansoddi gyntaf. Caiff data am dderbyniadau brys i'r ysbyty, derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys a digwyddiadau mewn meddygfeydd meddygon teulu eu dadansoddi ar lefel gyffredinol yn y lle cyntaf. Nod y gwaith dadansoddi diweddarach fydd dadansoddi'r defnydd ar gyfer cyflyrau a digwyddiadau iechyd penodol.
 - Caiff yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus eraill ei dadansoddi pan fydd data ar gael (Gofal Cymdeithasol, Cyfiawnder Troseddol, yr Adran Gwaith a Phensiynau), ac yn unol ag unrhyw waith blaenoriaethu y bydd yr Ymchwilydd a'r Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso yn cytuno arno. Mae Adran 2.28, isod yn trafod cynlluniau i gaffael data nad ydynt yn ymwneud â Cefnogi Pobl.
- 2.15 Prif Amcan 2: Mesur Sefydlogrwydd Preswyl/Byw'n Annibynnol
- Mesur a yw person yn aros yn ei gartref, neu'n symud i gartref arall am gyfnod penodol o sefydlogrwydd (6 mis).
- 2.16 Y disgwyl yw, pan fydd gwaith wedi'i gwblhau i roi tystiolaeth ar gyfer y cwestiynau ymchwil sylfaenol, y bydd yr Ymchwilydd, ar y cyd â'r Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso yn diffinio amcanion ymchwil Eilaidd.
- 2.17 Rhagwelir y bydd amcanion ymchwil eilaidd yn archwilio effaith Rhaglen Cefnogi Pobl ar is-grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau, er enghraifft grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau sydd â Phrif Anghenion neu grwpiau o brif anghenion gwahanol.

¹⁰ <https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/?lang=cy>

Amcan 4: Ceisio nodi grwpiau rheoli addas

- 2.18 Er mwyn casglu'r dystiolaeth fwyaf credadwy ynghylch p'un a yw prosiect Cefnogi Pobl yn gwneud gwahaniaeth i fywydau ei ddefnyddwyr gwasanaethau, yn ddelfrydol, mae angen i'r astudiaeth sefydlu grŵp rheoli cadarn. Mae grŵp rheoli yn cynnwys unigolion nad ydynt yn cael ymyriad ac maent wedi'u dewis er mwyn ymdebygu'n agos â'r unigolion sy'n cael yr ymyriad. Mewn egwyddor, byddai'r grŵp ymyrryd yn cael ei gymharu â'r grŵp rheoli er mwyn galluogi'r Prosiect i briodoli unrhyw effaith a arsylwir yn hyderus i Cefnogi Pobl.
- 2.19 Nid oes grŵp rheoli perffaith ar gael ar gyfer y Prosiect o ran y ffaith bod y mwyafrif o'r bobl sy'n gofyn am gymorth yn derbyn gwasanaethau. Felly, roedd y broses o gaffael data er mwyn datblygu grwpiau rheoli neu gymharu cadarn bob amser am fod yn heriol. O'r dechrau, ac mewn trafodaeth â Grŵp Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl, rhagwelwyd y byddai'r prosiect yn ceisio creu nifer o grwpiau rheoli o fathau gwahanol, y gellid defnyddio pob un ohonynt i ddod i gasgliadau gwahanol ynghylch effaith debygol Cefnogi Pobl yn seiliedig ar y graddau roeddent yn cymharu â defnyddwyr Cefnogi Pobl.
- 2.20 Trafodwyd y dulliau posibl o sefydlu grwpiau rheoli a'r ffynonellau data posibl ar gyfer y grwpiau rheoli hynny yn helaeth gyda Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl a gwneir cynnydd parhaus tuag at sefydlu'r grwpiau hyn. Ceir disgrifiad byr o'r grwpiau rheoli posibl gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o'u sefydlu isod:
- Grŵp Rheoli A: "Dull rheoliadau cyfatebol". Caiff cofnodion rheolaidd wedi'i hanonymyddio a ddelir yng Nghronfa Ddata SAIL eu dewis ar gyfer poblogaeth gyffredinol Cymru er mwyn cyd-fynd â phroffil demograffig-gymdeithasol defnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl. Caiff y rheoliadau eu cyfateb ar sail oedran, rhyw, ardal ddifreintiedig a lleoliad daearyddol. Mae'r gwaith i sefydlu'r grŵp rheoli hwn wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, am nad yw'n hysbys p'un a oedd yr unigolion a ddewiswyd ar gyfer y grŵp rheoli hwn yn wynebu argyfwng yn gysylltiedig â thai - ac mae'n llawer llai tebygol mai dyna yw'r achos - maent yn gymharol annhebygol o fod yn grŵp cymharu da.
 - Grŵp Rheoli B: "Dull sy'n Deillio o Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl". Nod y dull yw dewis y cofnodion rheolaidd wedi'u hanonymyddio ar gyfer unigolion a gyfeiriwyd at Gefnogi Pobl ond na chawsant gymorth. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Grŵp Ymchwil a Gwerthuso er mwyn diffinio'r meini prawf ar gyfer cynnwys pobl. Defnyddiwyd y dull hwn yn Astudiaeth Dichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl. Canfu'r Astudiaeth Dichonoldeb fod defnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl yn mynd i un yn fwy ar gyfartaledd o ddigwyddiadau mewn meddygfeydd meddyg teulu na'r grŵp cymharu hwn yn y misoedd cyn i gymorth Cefnogi Pobl ddechrau. Gellir esbonio'r gwahaniaeth yn lefel y defnydd o feddygon teulu mewn nifer o ffactorau, yn cynnwys y ffaith bod y grŵp cymharu wedi methu ag ymgysylltu am eu bod yn cael argyfyngau a oedd dipyn yn llai difrifol na'r rhai a wnaeth ymgysylltu neu fod yr argyfyngau mor ddifrifol fel eu bod yn tynnu'n ôl o wasanaethau gofal sylfaenol yn ogystal â Rhaglen Cefnogi Pobl. Felly, er y gallai hyn fod yn ddadlennol, mae cyfyngiadau i'r grŵp cymharu hwn. Felly, mae angen gwneud rhagor o waith i archwilio'r data ar gyfer y grŵp cymharu er mwyn dysgu mwy am y graddau y mae'r disgwyliadau uchod yn debygol o egluro'r gwahaniaethau a arsylwyd, yn ymarferol.

- Grŵp Rheoli C: "Dull sy'n Deillio o Ddata Opsiynau Tai". Caiff dyletswyddau digartrefedd eu cyflawni gan y Gwasanaethau Opsiynau Tai (dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Mae gan Dimau Opsiynau Tai ddyletswydd i asesu anghenion a chymryd camau rhesymol i atal digartrefedd a helpu i'w liniaru. Mae'r gwasanaeth yn galluogi pobl sydd angen tai, yn cynnwys pobl ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i archwilio eu hopsiynau tai a'u hopsiynau cymorth ychwanegol. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys tai cymdeithasol ac opsiynau amgen i dai cymdeithasol yn ogystal â gwasanaethau atal/liniaru digartrefedd a gwasanaethau Cefnogi Pobl. Os gellir caffael data ar opsiynau tai, caiff y grŵp rheoli ei sefydlu drwy ddewis y cofnodion rheolaidd wedi'u hanonymeiddio ar gyfer unigolion a gyfeiriwyd at opsiynau tai ond na chawsant gymorth drwy Raglen Cefnogi Pobl. Bydd gwaith yn mynd rhagddo pan fydd data ar gael er mwyn diffinio'r rheolau penodol i'w cynnwys yn y grŵp rheoli. Mae Adran 2.28 yn trafod ymdrechion i gael data ar Opsiynau Tai. Mae'n annhebygol y bydd hyn yn set data Cymru gyfan yn y byrdymor. O ystyried bod unigolion sy'n cael cymorth Opsiynau Tai yn debygol o wynebu argyfwng yn gysylltiedig â thai, mae'n bosibl y bydd y grŵp hwn yn gwneud grŵp cymharu da ar gyfer y dadansoddiad. Fodd bynnag, bydd angen ystyried y cyfyngiad bob amser o ran os byddai angen y cymorth ychwanegol a ddarperir gan Cefnogi Pobl ar yr unigolion hynny, y dylent fod wedi'u cyfeirio at Cefnogi Pobl.
- Grŵp Rheoli D: "Defnyddio Dull Segmentu ar Batrwm Gofal Iechyd Hanesyddol". Nod y dull hwn oedd creu rheoliadau drwy nodi unigolion o fewn y Gronfa Ddata SAIL oedd â phatrymau tebyg o ran defnyddio gofal iechyd â defnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl. Cwblhawyd gwaith i greu'r grŵp rheoli hwn ond nid oedd y dull yn gweithio gan nad oedd digon o gleifion wedi'u derbyn i'r ysbyty i greu grwpiau gwahanol cadarn o bobl. Felly, ni chaiff y dull ei ddefnyddio yn y dyfodol.

- 2.21 Caiff y dulliau llawn o sefydlu grwpiau rheoli eu cynnwys mewn adroddiadau ar ganfyddiadau sylweddol yn y dyfodol. Gellir archwilio'r potensial i sefydlu grwpiau rheoli ychwanegol os bydd ffynonellau data newydd ar gael.
- 2.22 Un enghraifft o set ddata a all gynnig cyfle arall i ddatblygu grŵp rheoli yw'r set ddata ar Gamddefnyddio Sylweddau a ddelir gan Wasanaethau Gwybodeg Cenedlaethol Cymru, sydd wedi'i fewnforio i mewn i SAIL am y tro cyntaf ac sydd ar gael i'r prosiect. Rhagwelir y bydd dadansoddiad ymchwiliol yn dechrau ym Mlwyddyn Tri y prosiect. Mae'r set ddata yn caffael data sy'n ymwneud â phob unigolyn (cleientiaid), yn bobl ifanc ac yn oedolion, sy'n derbyn triniaeth camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae'n ofynnol i ddarparwyr yng Nghymru sy'n darparu triniaeth camddefnyddio sylweddau ac sy'n cael cyllid refereniw camddefnyddio sylweddau gan Lywodraeth Cymru gyflwyno data.

Argymhelliad 1: Adolygu'r broses dderbyn a chreu cofnodion

- 2.23 Sefydlwyd adolygiad manwl o holl brosesau Awdurdodau Lleol, ond ystyriwyd y byddai'n cymryd gormod o amser i'w gwblhau yn ei gyfanrwydd. Er mwyn nodi unrhyw amrywiad mewn Awdurdodau Lleol, dosbarthwyd holiadur i bob Awdurdod Lleol yn casglu gwybodaeth am y ffordd y cafodd pob eitem o ddata ei chreu a gofyn am ddealltwriaeth o'r ffordd y dylid poblogi pob eitem. Casglwyd y ffurflenni a ddychwelwyd a bydd hyn yn helpu i ddeall unrhyw wahaniaethau rhwng awdurdodau wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

Argymhelliad 2: Caffael data ôl-weithredol

- 2.24 Gwnaed penderfyniad yng nghyfarfod Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl y dylid ymdrechu rhagor er mwyn caffael data ôl-weithredol 'cyn-2016' i wella cyffredinoladwyedd y data. Gwnaeth yr Ymchwilydd waith i'r perwyl hwn. Cytunodd y Grŵp na ddylid gwneud rhagor o waith ar ôl yr ymgais olaf hon ac y dylid neilltuo adnoddau i weithio ar y data sydd ar gael.

Argymhelliad 3: Safoni Data ac Ansawdd Data

- 2.25 Fel y nodwyd yn Adran 2.11, yn ystod Blwyddyn Dau, rhannwyd rhagor o gyngor i bob Awdurdod Lleol er mwyn helpu timau Cefnogi Pobl wella ansawdd y data ac arweiniodd hyn at wella ansawdd data.
- 2.26 Adolygwyd meysydd data crai 'Rheswm Aflwyddiannus' a 'Rheswm wedi Dod i Ben' gan yr Ymchwilydd ac mewn trafodaeth ag aelodau o Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl i sicrhau y gallai'r Prosiect ddatblygu'r set fwyaf cywir posibl o feini prawf er mwyn rhannu unigolion yn rhai a gaiff eu diffinio yn 'ddefnyddwyr gwasanaeth' a rhai y dylid eu hystyried yn 'rheoliadau'. Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau proses safonol ym mhob Awdurdod Lleol.

Model gwrthbwysu cost

Amcan 5: Ymchwilio i ddichonoldeb creu model gwrthbwysu cost ymhellach

- 2.27 Yn ystod Blwyddyn Dau, cafwyd cyfle i weithio gydag Economegydd sy'n gysylltiedig â phroffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb datblygu model gwrthbwysu cost gan ddefnyddio'r data lefel unigol wedi'u hanonymeiddio ar gyfer Cefnogi Pobl ar y cyd â'r cofnodion rheolaidd a oedd eisoes yn rhan o Gronfa Ddata SAIL.
- 2.28 Llwyddwyd i ddechrau ar y gwaith hwn yn ystod camau olaf Blwyddyn Dau a bydd yn parhau i mewn i fisoedd cyntaf Blwyddyn Tri. Fel y nodwyd uchod, arweiniodd hyn at y penderfyniad i flaenoriaethau'r model gwrthbwysu cost cyn tasgau dadansoddi eraill. O ganlyniad i'r gwaith hwn, rhagwelir y bydd Adroddiad Blwyddyn Tri yn cynnwys asesiad manylach o ddichonoldeb datblygu model gwrthbwysu cost.

Data nad ydynt yn ymwneud â Cefnogi Pobl

Amcan 6: Caffael setiau data ar gyfer dangosyddion ychwanegol

- 2.29 Ystyrir mai data Opsiynau Tai sydd â'r flaenoriaeth fwyaf ar gyfer y prosiect hwn gan mai dyna lle mae'r potensial gorau i greu grŵp rheoli cymaradwy a chadarn. Dechreuwyd gwaith gan brosiect ymchwil academiaidd er mwyn canfasio pob Awdurdod Lleol yng Nghymru o ran eu gallu a'u parodrwydd i ddarparu data. Mae prosiect peilot ar gyfer Awdurdod Lleol Abertawe yn mynd rhagddo ac mae data Opsiynau Tai wedi'u caffael ar gyfer SAIL. Felly, gan weithio gyda'r tîm academiaidd, gall y broses o ymchwilio i ddata Opsiynau Tai Abertawe ddechrau yn ystod Blwyddyn Tri.
- 2.30 Gwnaed penderfyniad i Brosiect Datblygu Llif Data y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru arwain y broses o gaffael data Gofal Cymdeithasol gan Awdurdodau Lleol. Mae'r Prosiect Datblygu Llif Data wedi dechrau gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ym meysydd Polisi Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (Casglu Data) er mwyn ymchwilio i'r opsiynau o ran os a sut y gellid caffael data Gofal Cymdeithasol. Mae'r adran polisi Gofal Cymdeithasol wrthi'n adolygu data a gasglwyd gan Awdurdodau

Lleol a fydd yn effeithio ar y prosiect. Bydd gwaith yn parhau i gysylltu â swyddogion ar y gwaith hwn er mwyn sicrhau na cheir unrhyw effeithiau negyddol ar gasgliadau data Awdurdodau Lleol na Llywodraeth Cymru. Ymhellach, mae'r Prosiect Datblygu Llif Data yn cefnogi academyddion ym Mhrifysgol Bangor i wneud cais am gyllid ar gyfer prosiect a fyddai'n ceisio caffael data gofal cymdeithasol gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Fel rhan o strategaeth ymchwil a datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Cymru 2017-2022, sefydlwyd 'Gweithgor mynediad at ddata gofal cymdeithasol a'i ddefnyddio' er mwyn dwyn chwaraewyr allweddol ynghyd ym maes gofal cymdeithasol sydd â diddordeb yn y maes hwn neu sy'n rhan ohono. Gwahoddwyd arweinydd y Rhaglen i Wneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol yn Llywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu prosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl a'r Prosiect Datblygu Llif Data, i fod yn rhan o'r gweithgor hwn. Lle bu'r Prosiect Datblygu Llif Data yn llwyddiannus wrth osod Cyfarpar Data Ymchwil Cenedlaethol mewn Awdurdodau Lleol Peilot, mae rhai Awdurdodau Lleol wedi cynnig darparu amrywiaeth o setiau data i Gronfa Ddata SAIL, y mae data gofal cymdeithasol ar eu cyfer wrthi'n cael eu trafod.

- 2.31 Mae data'r Gronfa Ddata Disgyblion Genedlaethol (cyfnod allweddol un i bedwar) ar gael yn SAIL ac mae'r prosiect hwn wedi cael caniatâd i gyrchu'r data a'u cysylltu. Fodd bynnag, mae'r cwestiynau ymchwil sy'n gysylltiedig ag addysg wedi'u dadflaenoriaethu felly nid yw'r gwaith wedi bod yn mynd rhagddo hyd yma. Y rheswm y cafodd addysg ei dadflaenoriaethu oedd oherwydd y niferoedd bach,
- gan mai dim ond is-set o ddefnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl fyddai â phlant o'r oedran cywir i gael cofnod Cronfa Ddata Disgyblion Cenedlaethol;
 - byddai angen cofnod o gyrhaeddiad addysgol cyn ac ar ôl i'r cymorth ddechrau er mwyn galluogi asesiad i gael ei wneud o effaith Cefnogi Pobl, a fyddai'n lleihau'r niferoedd ymhellach;
 - ar gyfer yr is-set cymharol gul hon o achosion, byddai angen digon o ryngweithio gyda'r GIG er enghraifft, er mwyn sicrhau bod asesiad o unrhyw wahaniaeth a nodwyd yn ddigon cadarn.
- 2.32 Mae'r Ymchwilydd wedi mynychu cyfarfodydd gyda Heddlu De Cymru i drafod y broses o gaffael data'r Heddlu ar gyfer y prosiect. Megis dechrau y mae'r trafodaethau ond y nod yw sefydlu cytundeb rhannu data a chaffael data a fyddai ar gael i'w ddadansoddi yn ystod Blwyddyn Tri. Gall y Prosiect Datblygu Llif Data gynnig rhagor o gyfleoedd i gaffael data'r Heddlu, lle mae rhai o Wasanaethau Adnoddau a Rennir Awdurdodau Lleol hefyd yn gwasanaethu heddluoedd yng Nghymru.
- 2.33 Mae Rhaglen Llywodraeth Cymru i Wneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol a'r Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol wedi bod yn gweithio i gaffael data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau/Cyllid a Thollau EM ar gyfer Cronfa Ddata SAIL/Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru i gefnogi amrywiaeth o brosiectau ymchwil cysylltu data. Mae'r gwaith hwn yn barhaus a rhagwelir y caiff data eu caffael ar gyfer y Prosiect i Wneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol yn ystod Blwyddyn Tri Prosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl. Os caiff y data eu caffael unwaith ar gyfer un Prosiect Gwneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol, rhagwelir y bydd trafodaethau'n cychwyn er mwyn ehangu mynediad i brosiectau Gwneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol eraill, yn cynnwys hwn.

Dadansoddi ac Adrodd

Eitem 1: Adroddiadau Ansawdd Data

- 2.34 Fel y nodwyd uchod, o ganlyniad i roi rhagor o gymorth a chyngor i dimau Cefnogi Pobl, y farn oedd bod ansawdd data wedi gwella i'r graddau nad oedd angen adroddiadau ansawdd ar lefel unigol mwyach.

Eitem 2: Cynnydd tuag at gyflenwi data Cefnogi Pobl

- 2.35 Ceir gwybodaeth am y cynnydd a wnaed ar gyflenwi data yn Adran 2.2 uchod.

Eitemau 3 a 4: Dadansoddiad o nodweddion demograffig defnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl a dadansoddiadau ymchwiliol newydd

- 2.36 Mewn trafodaeth â Grŵp Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl, cytunwyd yn hytrach na rhuthro i ddarparu dadansoddiad sylweddol erbyn terfyn amser y Prosiect i gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd, roedd yn bwysig bod unrhyw waith paratoi i gysoni'r data a gwirio eu hansawdd ac i sicrhau ansawdd y dadansoddiad yn cael ei gwblhau'n llawn. Byddai hyn yn sicrhau y gallai'r Grŵp fod yn gwbl hyderus bod unrhyw ganfyddiadau sylweddol a gyhoeddir yn gadarn a dibynadwy.
- 2.37 Fel y nodwyd uchod, arweiniodd y cyfle i weithio gydag Economegydd ar y broses o ddatblygu model gwrthbwysu cost at y penderfyniad i flaenoriaethu'r model gwrthbwysu cost cyn cyflawni tasgau dadansoddi eraill.
- 2.38 Felly, gwnaed y penderfyniad i beidio â chynnwys dadansoddiad newydd yn Adroddiad Blwyddyn Dau gan Grŵp Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl.
- 2.39 Disgwylir i'r adroddiad cyntaf ar ganfyddiadau sylweddol gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2018. Rhagwelir y byddai pob adroddiad ar ganfyddiadau sylweddol yn cynnwys adrannau ar ansawdd data a nodweddion demograffig defnyddwyr gwasanaethau a rheoliadau.

3. Casgliadau, Argymhellion a'r Camau Nesaf

Casgliadau

- 3.1 Fel y nodir uchod, gwnaed cynnydd ardderchog o ran llunio cytundebau rhannu data a chaffael data gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â gweddill yr Awdurdodau Lleol ac mae cynllun ar waith i ddatblygu'r sefyllfa.
- 3.2 Mae'r cyfraddau ansawdd data a chysylltu data wedi bod yn dda ar y cyfan. Pan fo ansawdd data yn is na'r disgwyl, mae gwaith yn mynd rhagddo i'w wella.
- 3.3 Mae Timau Cefnogi Pobl wedi bod yn gydwethredol iawn a chaiff eu cymorth ei werthfawrogi'n fawr.
- 3.4 Fodd bynnag, bydd y broses o gaffael data yn parhau i gymryd cyfran fawr o amser yr ymchwilydd.
- 3.5 Mae'r broses o ddatblygu grwpiau rheoli yn llif gwaith sylweddol o hyd.
- 3.6 Mae'r gwaith o gaffael data nad ydynt yn ymwneud â Cefnogi Pobl yn mynd rhagddo ond, yn seiliedig ar ymdrechion blaenorol, gwyddom y gall hyn gymryd llawer o amser ac adnoddau ac mae'n annhebygol y bydd setiau data ar gyfer gofal cymdeithasol ac opsiynau tai er enghraifft ar gael ar lefel Cymru gyfan yn fuan.
- 3.7 Gall datblygiadau amrywiol fod o gymorth i'r prosiect yn y dyfodol, yn cynnwys caffael data Cefnogi Pobl a/neu ddata nad ydynt yn ymwneud â Cefnogi Pobl, yn cynnwys prosiectau Gwneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol e.e. prosiect Datblygu Llif Data Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, amrywiaeth o brosiectau academaidd a chyfluoedd fel y cydweithredu sy'n digwydd yn rhanbarth Gogledd Cymru i lunio set data Cefnogi Pobl unigol. Fel rhan o'r Rhaglen Gwneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol, bydd y Prosiect yn parhau i wneud y gorau o bob cyfle sydd ar gael er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol o waith sy'n mynd rhagddo mewn manau eraill.

Argymhellion

- 3.8 Mae'r prif argymhellion canlynol ar gyfer Blwyddyn Tri wedi dod i'r amlwg:
 - Gweithio gyda Phrosiect Datblygu Llif Data Llywodraeth Cymru a Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, parhau ag ymdrechion i sicrhau bod y broses o gyflenwi data i Gronfa ddata SAIL/Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru yn datblygu i fod yn rhan arferol o waith y sector cyhoeddus yng Nghymru.
 - Ar sail y cynnydd a wnaed ac enghraifft Gogledd Cymru, argymhellodd Grŵp Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl greu cronfa ddata ganolog. Fodd bynnag, er mwyn i'r argymhelliad hwn gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, byddai angen iddo gael ei gyflwyno fel darn o waith ar wahân yn hytrach na thrwy'r prosiect hwn.

Y Camau Nesaf

- 3.9 Yn gryno, y camau nesaf ar gyfer Blwyddyn Tri yw:
 - Cwblhau cytundebau rhannu data a chaffael data ôl-2016 ar gyfer yr Awdurdodau Lleol sy'n weddill, gyda chymorth priodol pan fo'n ofynnol.
 - Trefnu i gaffael a mewnfurio data gan bob Awdurdod Lleol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol neu'r flwyddyn galendr 2017-18.
 - Cynnal asesiad manylach o ddichonolrwydd datblygu model gwrthbwysu cost.

- Parhau i nodi a chreu grwpiau rheoli addas at ddibenion dadansoddi.
- Cynnal dadansoddiad o'r defnydd o wasanaethau iechyd gyda'r bwriad o gyhoeddi canfyddiadau sylweddol cychwynnol yn ystod hydref 2018.
- Parhau i gaffael setiau data sy'n ymwneud â dangosyddion ychwanegol, blaenoriaethu data gofal cymdeithasol ac opsiynau tai.
- Cynnal dadansoddiad o effaith Cefnogi Pobl ar wasanaethau cyhoeddus eraill pan fydd data ar gael.
- Caiff Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Tri ei gyhoeddi yng ngwanwyn/haf 2019.

Atodiad A: Amcanion Ymchwil

Amcanion Ymchwil Sylfaenol:

Mesur effaith gyffredinol y rhaglen ar lefel polisi

Prif Amcan 1. Defnydd o wasanaethau cyhoeddus

A yw Cefnogi Pobl yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus eraill?

- I. Mesur yr effaith ar wasanaethau Gofal Iechyd:
 - effaith ar nifer y derbyniadau brys i'r ysbyty
 - effaith ar y nifer sy'n mynychu adrannau achosion brys
 - effaith ar wasanaethau meddyg teulu
- II. Mesur yr effaith ar wasanaethau gofal cymdeithasol
- III. Mesur yr effaith ar y system cyfiawnder troseddol
- IV. Mesur yr effaith ar y farchnad lafur ac economeg

Prif Amcan 2. Sefydlogrwydd Preswyl

- V. A yw Cefnogi Pobl yn sicrhau sefydlogrwydd preswyl a byw'n annibynnol?
 - Mesur a yw person yn aros yn ei gartref, neu'n symud i gartref arall am gyfnod o sefydlogrwydd

Amcanion Ymchwil Eilaidd:

Mesur effaith rhannau penodol o'r rhaglen

- I. A oedd y patrwm o'r Defnydd o wasanaethau cyhoeddus yn amrywio yn ôl swyddog arweiniol neu grwpiau o bobl eraill deilliedig e.e. pobl sydd wedi'u grwpio yn ôl eu patrymau o ddefnyddio gofal iechyd neu gyd-forbidrwydd sy'n bodoli eisoes?
- II. A wnaeth y cymorth a ddarparwyd effeithio ar anghydraddoldebau (morbidrwydd pob achos)?
- III. A wnaeth y cymorth effeithio ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig ag addysg ar gyfer plant sy'n cyd-fyw?
 - A. A wnaeth y plant symud ysgol yn llai aml ar ôl ymyriad Cefnogi Pobl?
 - B. A effeithiwyd ar eu presenoldeb?
 - C. A effeithiwyd ar eu cyrhaeddiad?
- IV. A wnaeth y cymorth a ddarparwyd effeithio ar barhad addysgol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau?

Atodiad B: Trosolwg Caffael Data Cefnogi Pobl

Mae'r tabl isod yn crynhoi data gweinyddol Cefnogi Pobl crai a ddarparwyd i Gronfa Ddata SAIL gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Yn nhrefn y wyddor, mae'r tabl yn dangos pa Awdurdodau Lleol sydd â chytundeb rhannu data wedi'i gwblhau ac sydd wedi darparu data i SAIL, ynghyd â'r cyfnod a gwmpesir gan y data.

Tabl B: Trosolwg Caffael Data Cefnogi Pobl

Awdurdod Lleol	Statws o ran cytundeb rhannu data	Statws o ran casglu data	Data o*	Data i*
Ynys Môn	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2016	2017
Blaenau Gwent	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2008	2017
Pen-y-bont ar Ogwr	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2015	2017
Caerffili	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2003	2018
Caerdydd	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2014	2017
Conwy	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2013	2017
Sir Ddinbych	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2015	2017
Sir y Fflint	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2011	2017
Gwynedd	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2013	2017
Merthyr Tudful	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2013	2016
Sir Fynwy	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2015	2016
Casnewydd	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2014	2017
Castell-nedd Port Talbot	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2003	2017
Powys	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2014	2017
Rhondda Cynon Taf	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2013	2017
Abertawe	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2003	2018
Torfaen	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2013	2017
Wrecsam	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2015	2017
Bro Morgannwg	Wedi'i gwblhau	Wedi'i lwytho i SAIL	2013	2017
Sir Gaerfyrddin	Heb ei gwblhau	Parhaus	-	-
Ceredigion	Heb ei gwblhau	Parhaus	-	-
Sir Benfro	Heb ei gwblhau	Parhaus	-	-

* Yn dynodi'r amrywiaeth o ddata a gyflenwyd yn seiliedig ar ddyddiad dechrau'r flwyddyn o gymorth, lle mae'r cofnodion am y flwyddyn yn uwch na 50 ac wedi'u cymryd fel ar ddiwedd mis Mawrth 2018.